Merched y Wawr, Bethel

Cyfarfu rhai o'r aelodau ar Zoom, nos Fercher, 10fed Chwefror. Croesawodd Anita, ein Llywydd, pawb i'r cyfarfod Zoom. Rhoddodd groeso arbennig i Glenys oedd wedi ymuno â ni o Dde Cymru. 'Roedd pawb yn falch o weld Glenys ac yn falch o glywed ei bod hi a Jenkin yn cadw'n ddiogel. Anfonwyd cofion a gwellhad buan i Mabel, Eryl a Gwyneth (Llain yr Ardd) sydd yn Ysbyty Eryri.

Dilynwyd yr un drefn a chyfarfod y mis diwethaf, sef sgwrs deg munud rhwng 3 neu 4 aelod cyn ymgynnull i rannu ein hoff ryseitiau. Cafwyd amrywiaeth o ryseitiau, rhai sawr a rhai melys, megis cig eidion bourguignonne, enchiladas, falafel, cyri, cawl llysieuol, tiramasu amaretto, meringue ffrwythau a sawl ryseit gwahanol ar gyfer bara brith. Roedd rhai o'r ryseitiau bara brith wedi eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'n ymddangos bod yr aelodau yn mwynhau prydau egsotig yn ogystal a rhai traddodiadol! Cafwyd noson ddifyr yn gwrando ar yr amrywiaeth ryseitiau. Awgrymodd Anita ein bod yn rhannu'r ryseitiau trwy eu ebostio i Rhian er mwyn i pawb gael copi ohonynt.

Diolchwyd i Gwenan am yrru'r linc gysylltiol i ni.

Fe atgoffwyd yr aelodau am weithgareddau, podlediadau a chyfarfodydd zoom sydd ar gael gan y mudiad, megis addurno eich ffenestr gyda chennin pedr ar ddydd Gŵyl Ddewi, fel arwydd o obaith i'r Gwanwyn a noson yng nghwmni Bethan Gwanas ar nos Iau, Mawrth 4ydd.

Mis nesa mi fydd Angharad Price yn ymuno â ni ar zoom i sgwrsio am ei llyfr a'i hysgrif 'Cwpan a Soser', atgofion plentyndod o'i magwraeth ym Methel. Cofiwch gael panad mewn cwpan a soser a tamaid o gacen yn barod ar gyfer y sgwrs.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar zoom ar nos Fercher 10fed Mawrth am 7.30. Yn y cyfamser cadwch yn iach a diogel.